

Gall **Llais** eich cynorthwyo i godi cwyn am wasanaethau'r GIG, o dan y broses gwyno **Gwrando ar Bobl**

LLAIS


LLAIS

# Pwy ydym ni

Llais yw'r corff annibynnol sy'n sicrhau bod gan bobl yng Nghymru lais cryfach yn eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

**Mae ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion yn rhad ac am ddim, yn gyfrinachol, ac yma i'ch cefnogi os ydych chi eisiau codi pryder neu wneud cwyn.**

# Pwy all ddefnyddio'r gwasanaeth

Gallwch ddefnyddio ein heiriolaeth cwynion os ydych chi'n:

- oedolyn, person ifanc, neu blentyn sydd â chwyn am wasanaethau'r GIG
- rhywun sy'n codi pryder ar ran person arall, gan gynnwys rhywun sydd wedi marw

**Os na allwn ni helpu, byddwn ni'n egluro pam ac yn eich tywys at rywun a all.**

# Yr hyn y gallwch ei ddisgwyl gan y GIG

O dan y broses gwynion Gwrando ar Bobl (LTP) y GIG, dylai gwasanaeth y GIG ddarparu'r canlynol i chi:

- cydnabyddiaeth o'ch cwyn o fewn 5 diwrnod gwaith
- cynnig o drafodaeth wrando, lle mae'r sefydliad yn gwrando ac yn cytuno ar y camau nesaf
- opsiwn, lle bo modd, i ddatrys eich pryder yn gyflym drwy ddatrysiad cynnar
- cyfathrebu, gwybodaeth a chymorth mewn ffordd sy'n gweithio i chi, gan gynnwys unrhyw addasiadau sydd eu hangen arnoch er mwyn i chi allu cymryd rhan lawn
- cynnig o gefnogaeth eiriolaeth, heb i chi orfod gofyn



# Sut allwn ni eich cefnogi

**Gall eiriolwr cwynion Llais:**

- eich helpu i ysgrifennu llythyr cwyn
- eich helpu i baratoi ar gyfer eich trafodaeth wrando
- eich cefnogi i esbonio beth ddigwyddodd a beth rydych chi eisiau digwydd nesaf
- eich helpu i gael yr addasiadau sydd eu hangen arnoch i allu cymryd rhan lawn
- esbonio sut mae'r broses gwyno yn gweithio
- eich helpu i ddeall unrhyw ohebiaeth cwyn a gewch, gan gynnwys yr ymateb i'r gwyn
- eich helpu i ddod o hyd i wasanaethau eraill a all eich cefnogi os oes eu hangen arnoch





# Beth sy’n digwydd yn y broses Gwrando ar Bobl

## 1. Cydnabyddiaeth gwasanaeth y GIG (o fewn 5 diwrnod gwaith)

Mae’r sefydliad yn cysylltu â chi i gadarnhau eu bod wedi derbyn eich pryder. Rhaid iddyn nhw hefyd gynnig trafodaeth wrando i chi.

## 2. Trafodaeth gwrando

**Sgwrs yw hon, dros y ffôn, fideo, neu wyneb yn wyneb, lle:**

- rydych chi’n egluro beth ddigwyddodd
- rydych chi’n siarad am sut mae wedi effeithio arnoch chi
- rydych chi’n trafod yr hyn sydd bwysicaf i chi
- rydych chi’n egluro beth hoffech chi ei weld yn digwydd
- cytunwyd ar y camau nesaf

**Gall eiriolwr cwynion eich helpu i baratoi neu ymuno â’r drafodaeth os oes angen.**

## 3. Cam 1: datrysiad cynnar (hyd at 10 diwrnod gwaith)

Gellir datrys y rhan fwyaf o bryderon yn gyflym. Yn ystod y cam hwn, dylai sefydliad y GIG:

- wirio'r ffeithiau
- gwneud newidiadau ymarferol neu gywiro pethau lle bo modd
- eich diweddaru
- gwirio a yw'r canlyniad yn cwrdd â'ch disgwyliadau

## 4. Cam 2: ymchwilio, adrodd a dysgu

Os na ellir datrys eich problem drwy ddatrysiad cynnar, neu os ystyrir ei bod yn rhy gymhleth i fod yn briodol ar gyfer datrysiad cynnar, bydd sefydliad y GIG yn ymchwilio iddi'n fwy trylwyr.

Bydd adroddiad yr ymchwiliad yn dweud wrthych:

- yn union yr hyn a wirion nhw
- yr hyn a ddarganfuwyd ganddynt
- beth fyddan nhw'n ei wneud fel nad yw'r un broblem yn digwydd eto

# Eich hawliau o dan y broses gwyno Gwrando ar Bobl

Pan fyddwch chi'n cwyno, mae gennych chi'r hawliau canlynol:

- cymorth am ddim ac annibynnol gan eiriolwr cwynion
- cyfathrebu sy'n diwallu eich anghenion iaith a mynediad
- esboniadau clir a diweddariadau rheolaidd
- cyfathrebu parchus a gofalgar sy'n deall y gallech fod wedi cael profiadau anodd



# Yr hyn y gall a'r hyn na all ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion ei wneud

**Gallwn ni:**

- eich cefnogi i gwyno ar eich pen eich hun
- eich helpu i ysgrifennu eich llythyr cwyn
- eich helpu i egluro eich pryderon yn glir
- eich tywys drwy eich opsiynau
- gwrando a'ch helpu i baratoi
- eich cefnogi yn ystod cyfnodau allweddol fel y drafodaeth wrando
- cysylltu â'ch bwrdd iechyd ynglyn â'ch pryder neu gwyn

**Ni allwn:**

- wneud penderfyniadau i chi
- ymchwilio i bryderon
- rhoi cyngor meddygol neu gyfreithiol
- mynychu cyfarfodydd yn eich lle
- cynnig cwnsela neu gymorth brys






# Cysylltwch â ni

Os oes gennych gwyn yr hoffech gael cymorth gyda hi, neu os ydych chi eisiau rhagor o wybodaeth am y broses gwyno Gwrando ar Bobl, mae gennym ni 7 swyddfa leol a all drafod eich pryder a'r math o gymorth sydd ei angen arnoch chi.

## Caerdydd a'r Fro

- ymholiadaucaerdyddarfro@llaiscymru.org
- 02920 750112

## Cwm Taf Morgannwg

- CTM@llaiscymru.org
- 01443 405830

### Gwent

- ymholiadaugwent@llaiscymru.org
- 01633 838516

### Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe

- ymholiadau.cnptacabertawe@llaiscymru.org
- 01639 683490

### Gogledd Cymru

- ymholiadaugogleddcymru@llaiscymru.org
- 01978 356178 / 01248 679284

### Powys

- ymholiadaupowys@llaiscymru.org
- 01874 624206 / 01686 627632

### Gorllewin Cymru

- ymholiadaugorllewincymru@llaiscymru.org
- 01646 697610

**Gallwn ddarparu'r wybodaeth hon mewn gwahanol fformatau ac ieithoedd, gan gynnwys print bras, Hawdd ei Ddarllen, Iaith Arwyddion Prydain (BSL) a Saesneg.**

**Cysylltwch â ni ar ymholiadau@llaiscymru.org a byddwn yn hapus i helpu.**

LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care